Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofnodion Cyfarfod o'r Bwrdd, 4 Mehefin 2021

**Yn bresenol**
Shan Morgan

Meena Upadhyaya

Ellen Donovan

Gareth Lynn

Andrew Goodall

Andrew Slade

Tracey Burke

Reg Kilpatrick

David Richards

Peter Kennedy

Natalie Pearson

Gawain Evans

Helen Lentle

Charlotte Thomas

Piers Bisson

**Ymddiheuriadau**
Desmond Clifford

Andrew Jeffreys

Jeff Farrar

**Yn mynychu**
Catrin Sully

Sharon Cross

Helen McFarlane

**Ysgrifenyddiaeth**
Charmain Watts

## Croeso

- Croesawodd yr Ysgrifennydd Parhaol bawb a oedd yn bresennol a dywedodd wrth y bwrdd fod ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Des Clifford ac Andrew Jeffreys. Eglurodd hefyd na fyddai Jeff Farrar yn bresennol yn y cyfarfod heddiw.

- Gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol i aelodau'r bwrdd a ydynt yn fodlon â chofnodion y cyfarfod diwethaf. Dylid bwydo unrhyw sylwadau a/neu ddiweddariadau yn ôl i'r ysgrifenyddiaeth cyn iddynt gael eu cyhoeddi yr wythnos nesaf.

## 1. Materion presennol, gan gynnwys COVID-19

1.1 Darparodd yr Ysgrifennydd Parhaol adborth o gyfarfod yr ymchwiliad a gynhaliwyd yr wythnos hon rhwng yr Ysgrifenyddion Parhaol. Pwysleisiodd bwysigrwydd gallu dangos y penderfyniadau a wnaed ar sail data sydd ar gael inni ar y pryd, mae hefyd yn hanfodol sicrhau bod yr holl ddogfennaeth ar gael ac yn barod i'w defnyddio. Cytunodd y bwrdd y byddai cofnodi'r gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau blaenorol hefyd yn ddefnyddiol.

1.2 Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol a oeddem wedi ystyried y llwyth gwaith ychwanegol ar staff a sut y byddem yn cefnogi staff drwy ymchwiliad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd staff yn cael cymorth ac y byddai gwasanaethau cyfreithiol ar gael iddynt. Mae tîm yn cael ei sefydlu i arwain ar waith sy'n ymwneud ag ymchwiliad. Trafododd y bwrdd y llwyth gwaith ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol ymhellach a chytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol y dylem recriwtio rhagor o gyfreithwyr yn barod ar gyfer ymchwiliad.

1.3 Rhoddodd Andrew Goodall yr wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd Llywodraeth Cymru am y datblygiadau diweddaraf ar COVID-19 a'r sefyllfa bresennol yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar gyfraddau COVID-19 presennol yng Nghymru, nifer y sawl sydd wedi'u brechu, gweithgareddau gofal critigol a rhestrau aros y GIG.

1.4 Darparodd Reg Kilpatrick yr wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiad y Prif Weinidog ynghylch cyfyngiadau COVID. Esboniodd y bydd symud i

lefel rybudd un yn cael ei wneud fesul cam i ganiatáu i ragor o bobl gael eu brechu a chwblhau eu cwrs dau ddos yng nghanol y pryderon ynghylch yr amrywiolyn Delta.

## 2. Y Rhaglen Lywodraethu

2.1 Darparodd Catrin Sully yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y Rhaglen Lywodraethu a fydd yn cael ei chyhoeddi ddydd Gwener 11 Mehefin. Esboniodd Catrin fod y Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys tua 90 o feysydd gweithgarwch penodol o'r maniffesto y mae’n ofynnol eu nodi a chanolbwyntio arnynt ar draws y llywodraeth. Dywedodd Catrin y bydd BIRT, yr adnodd newydd ar gyfer adrodd ar wybodaeth busnes, yn cael ei ddefnyddio i fonitro'r modd y cyflawnir y camau gweithredu.

2.2 Gofynnodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol ynglŷn â’r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod hi a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol yn cyfarfod â’r Gweinidogion ar hyn o bryd a bydd y gofynion mewn perthynas ag adnoddau yn rhan o'r drafodaeth honno.

2.3 Trafododd y bwrdd sut i gyfathrebu â staff ynglŷn â’r Rhaglen Lywodraethu a chytunodd y byddai'n wych pe gallai'r Prif Weinidog recordio fideo i staff neu gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb i'r holl staff. Dywedodd Catrin hefyd y bydd erthygl yn cael ei chyhoeddi ar y dudalen newyddion.

**CAM GWEITHREDU 1:** Ymchwilio i weld a hoffai'r Prif Weinidog recordio fideo i staff neu gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb i'r holl staff.

## 3. Diweddariad ar Gyllid

3.1 Adroddodd Gawain Evans ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i baratoi'r sefyllfa alldro ddrafft ar gyfer 2020-21 gan gynnwys paratoi cyfrifon, ymarfer pwysau cychwynnol 2021-22 a'r ymarfer i gefnogi'r gyllideb atodol gyntaf a fydd yn dirwyn i ben cyn toriad yr haf. Rhoddodd Gawain yr wybodaeth ddiweddaraf hefyd i’r aelodau am y cynlluniau ar gyfer 2021-22 a chanolbwyntiodd ar ragolygon refeniw, rhagolygon cyfalaf ac effaith ar gronfeydd wrth gefn.

3.2 Trafododd y bwrdd y broses o sicrhau bod gweithgareddau'r Rhaglen Lywodraethu yn cyd-fynd â chyllidebau. Esboniodd Gawain fod y trafodaethau gyda'r trysorlys yn parhau a bod Catrin Sully o Swyddfa'r Cabinet yn mynd i edrych ar y gyllideb bresennol a'r hyn yr oedd angen cyllid gan y Rhaglen Lywodraethu ar ei gyfer.

## 4. Y Fframwaith Perfformiad – Adrodd ar swyddogaethau

4.1 Darparodd Sharon Cross yr wybodaeth ddiweddaraf am Fframwaith Mesur Perfformiad Llywodraeth Cymru ac esboniodd ei fod wedi'i fabwysiadu fel y dull o fonitro perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn 2019.

4.2 Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar Fynegai Effeithiolrwydd Rhyngwladol y Gwasanaeth Sifil (InCiSE) ac mae wedi'i addasu i gyd-fynd â strategaethau, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru drwy ymgynghori â'r bwrdd, uwch-reolwyr ac ymchwilwyr.

4.3 Nod y Fframwaith yw sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd sefydliadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad.

4.4 Ystyriodd y bwrdd y dadansoddiad a nododd y perfformiad cyffredinol yn erbyn y Fframwaith, fel y'i llywiwyd gan y Dangosyddion. Croesawodd y bwrdd y dull rhagorol hwn a gofynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol inni ei gynnwys ym mhenawdau'r cyfrifon blynyddol gyda llythyr at gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) i ddilyn. Cytunodd y bwrdd hefyd y byddai'n ddefnyddiol cylchredeg yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys priodoleddau a swyddogaethau wrth adrodd y tro nesaf.

**CAM GWEITHREDU 2:** Cynnwys yr adrodd ar berfformiad ym mhenawdau'r cyfrifon blynyddol, gyda llythyr at gadeirydd PAC i ddilyn.

**CAM GWEITHREDU 3:** Cylchredeg yr adroddiad yn ei gyfanrwydd wrth adrodd yn y dyfodol.

4.5 Ystyriodd y bwrdd sut y gallem ymwreiddio'r broses hon o adrodd ar berfformiad yn y sefydliad ymhellach. Maent yn cytuno y dylem ei hyrwyddo o fewn y sefydliad a'i gyflwyno i'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion.

**CAM GWEITHREDU 4:** Hyrwyddo'r gwaith hwn o fewn y sefydliad a'i gyflwyno i'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion.

4.6 Dywedodd y Cyfarwyddwyr Anweithredol eu bod yn credu bod hwn yn ddarn rhagorol o waith er eu bod yn teimlo bod lle i gynyddu'r adborth gan randdeiliaid. Dywedasant hefyd, lle'r oedd perfformiad ychydig yn is, drwy edrych yn fanylach ar yr achos, gellid gwella perfformiad a chaniatáu i'r gwersi a ddysgwyd gael eu cofnodi.

## 5. Unrhyw fater arall

5.1 Cododd Ellen Donovan fater yn ymwneud â seiberddiogelwch a gofynnodd a allem drafod ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU 5:** Eitem ar yr agenda ar seiberddiogelwch i'w chynnwys mewn cyfarfod o'r bwrdd yn y dyfodol.

**Crynodeb o'r camau gweithredu:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Ymchwilio i weld a hoffai'r Prif Weinidog recordio fideo i staff neu gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb i'r holl staff. | Natalie Pearson | Wedi cau – Bu'r Prif Weinidog yn bresennol mewn sesiwn holi ac ateb i'r holl staff. |
| 2 | Cynnwys yr adrodd ar berfformiad ym mhenawdau'r cyfrifon blynyddol, gyda llythyr at gadeirydd PAC i ddilyn. | Sharon Cross | Parhaus |
| 3 | Cylchredeg yr adroddiad KPI yn ei gyfanrwydd wrth adrodd yn y dyfodol. | Sharon Cross | Parhaus |
| 4 | Hyrwyddo'r gwaith hwn o fewn y sefydliad a'i gyflwyno i'r Prif | Sharon Cross | Parhaus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Weinidog a'r Gweinidogion. | | |
| 5 | Eitem ar yr agenda ar seiberddiogelwch i'w chynnwys mewn cyfarfod o'r bwrdd yn y dyfodol. | Yr Ysgrifenyddiaeth | Yn rhan o'r rhagolwg ar gyfer cyfarfod mis Medi. |